

Ceiliog mwyalchen mewn llwyn piswydden (*Euonymus*) 16 Tach 2012. Mae'r llun yn werthfawr nid yn unig am harddwch yr aderyn ond hefyd oherwydd iddo gofnodi cyflwr ffrwythau'r piswydden nad oedd ar y pryd wedi agor. Yn fuan wedyn mae'n siwr byddai'r hadau oren llachar wedi ymddangos ynghanol plisg coch y ffrwyth a welir yn y llun

<http://en.wikipedia.org/wiki/Euonymus>
Llun: Gerallt Pennant



Ym Mwletin 59 gofynnwyd i ddarllenwyr ym mha iaith oedd yr erthygl ar y dudalen flaen. Dyma ateb Wmffra Humphreys: "*le patois gallo* ydi enw traddodiadol yr iaith, ond *la langue gallèse* ydi'r enw arni gan y sawl sy'n ei defnyddio ar bapur; fel dipyn o arbenigwr, allwni draethu'n feithach o lawer ar y pwnc!" Mae tocyn llyfr £10 ar ei ffordd i Wmffra. Dyma drosiad bras o fwrdd rhan o'r erthygl

Rydych yn gyfarwydd â gweld y sypiau mawr o flodau coch ar ochr y ffyrdd yn yr haf mae'n siwr, llawer ohonynt yn uwch na medr o daltra. Fe'i galwn [yn yr iaith Galo] y *berlu* - enw gwrywaidd. Dwi am esbonio ychydig am y gair "berlu" Yn y Ffrangeg dyma'r "digitale pourpre", *digitale* oherwydd y gellir rhoi bys yn y blodyn (bys yw *digitus* yn Lladin). Mae'n bosibl clathio'r blodyn trwy ddod a'i ddeupen at ei gilydd gan wasgu y gwddf a'r geg fel petai i greu 'swigen.

Beth yw'r enwau eraill ar y blodyn hwn yn y Galo? Mae pobl yn ei alw yn berlu yn rhan orllewinol Llydaw uchaf, ar y ffin rhwng Llydaweg a Galo, ond *nunus* yn ardaloedd y dwyrain. Mewn ardaloedd eraill fe'i gelwir yn *cotiâs*, *cotiards* a ffurfiau tebyg [sef gwniadur]. Mae yna lawer hefyd sydd yn ei alw'n *petâs*, *petards*, *petous* [y torrwr gwynt!]. Yn ardal Vitre mae'n cael ei alw'n *gantelets*

[menyg]. Ai o'r Llydaweg mae'r gair *berlu* yn dod gan mai brulu ydyw yn y Llydaweg - a *bokidi nunu* mewn llefydd eraill o Lydaw Llydaweg ei hiaith hefyd, fel yn gallo. Ac nid damwain efallai yw'r tebygrwydd rhwng *brulu* a briallu yn y Gymraeg, sef y "plleumevaire" yn y Galo, blodyn cyntaf y

gwanwyn. Mae'n ddigon rhyfedd bod yr enw wedi pasio o'r un rhywogaeth i'r llall.

Llun: Eifion Griffiths



Mwsogl newydd sbon danlli i Gymru!

Mae mwsogl newydd - sef y mwsogl gwrychog Cymreig (*Orthotricum cambrense*) - wedi cael ei ddarganfod ger Castell Dryslwyn yn Nyffryn Tywi, Sir Gaerfyrddin. Gwelwyd y mwsogl anghyfarwydd yma ar ambell fasarnen yn y maes parcio gerllaw. Mae gan y mwsogl hwn gyfuniad unigryw o nodweddion arbennig. Mae'n wahanol i fwsoglau eraill sy'n perthyn iddo, oherwydd mae blaen ei ddail yn grwn a'u hymylon yn llyfn, ac mae nodweddion ei gapsiwl sborau'n llai amlwg. Yn ôl CCGC, "Mae'r mwsogl gwrychog Cymreig yn arwydd pendant fod angen inni fod yn effro, yn wylidwrus ac â meddwl agored, hyd yn oed wrth edrych ar blanhigion mewn llefydd di-nod fel meysydd parcio. Dyma'r diweddaraf o dri math newydd o fwsogl i ddod i'r fei yn ddiweddar yng Nghymru - mwsoglau sy'n fwy nodweddiadol o gyfandir Ewrop."

Mae yna rai rhesymau sydd, efallai, yn esbonio pam na ddaethpwyd o hyd i'r rhywogaeth hon ynghynt. Y rheswm mwyaf tebygol yw'r ffaith ei bod efallai wedi esblygu'n ddiweddar o'r mwsogl *Orthotricum tenellum* sydd yn debyg iawn. Posiblirwydd arall yw na ddaethpwyd o hyd i rywogaethau tebyg mewn mannau eraill yn Ewrop, efallai mai rhywogaeth heb ei darganfod ydyw a ddaeth i'r wlad yma o gyfandir Ewrop ar goed masarn ifanc a ddefnyddiwyd i dirlunio'r maes parcio yn y 1990au. Y trydydd posibilrwydd yw bod y darganfyddiad wedi'i gyfyngu i rannau o orlffdir Afon Tywi na chawsant eu hadolygu o'r blaen gan arbenigwyr ar fwsoglau.

[Datganiad i'r Wasg gan Cyngor Cefn Gwlad Cymru]



Gwesty'r Hydro, Llandudno



Codwyd Gwesty Craigside Hydro ar lethrau'r Gogarth Fach tua 1884 ar dir Fferm Bryn y Bia. 'Roedd y gwesty yn arbenigo ac yn cynnig amrywiaeth o driniaethau meddygol, ac fel yr awgryma'r enw 'Hydro', 'roedd llawer o ddefnydd o ddŵr. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd cymerwyd y gwesty drosodd gan y llywodraeth a symudwyd nifer o weision sifil yno. Yn sicr, roedd yn westy moethus ac ymhlith y bobl fu'n ymweld 'roedd y Dywysoges Margaret.

Mae'r llun uchaf yn dangos y safle yn ystod y pumdegau, gan gynnwys y gerddi a'r lawntiau 'croce' o flaen y gwesty a'r neuaddau tenis dros y ffordd ger y môr. Ym 1959 penderfynwyd troi'r neuaddau tenis yn theatr gyda'r enw 'The New Stadium' a chyflwyno sioeau ar rew. Ar Orffennaf 11^{eg}. 1959 yr agorwyd gyda gorymdaith o'r pier at y theatr gyda bwch gafr a band yn arwain! Byr iawn fu oes y theatr, ac ar ddechrau'r saithdegau dechreuodd Cwmni Hotpoint gynhyrchu peiriannau glanhau a smwddio ar y safle. Yna, cymerwyd y safle gan Gwmni Ceir Automobile Palace oedd â modurdai yng Nghraig y Don, Bae Penrhyn (Y Links), Llanfair Pwll, Llandrindod a lleoedd eraill, i storio ceir. Yna, penderfynwyd gwerthu'r cyfan yn cynnwys y gwesty a'r pafiliwn ac fe ddymchwelwyd y gwesty ym 1974. Prynwyd y safle gan Awdurdod Tir Cymru a'i rannu'n dair safle. Bellach, fel y gwelwch o'r ail lun, tai sydd ar y safle.
Gareth Pritchard

Gwe tew

Have you ever seen such a fat spider's web?

Llun: Sue Lindsey Tynnodd Sue y llun ar fore barugog, 12 Rhagfyr 2012



Diod Criafol: Beddgelert, diwedd y 18g.

*Curiosity tempted me to enter [a Caernarvonshire peasant cottage]; the dark mud wall, rocky floor, and a few brown rushes, the family bed, suggested the idea of a den; the parents and their numerous progeny, were assembled round a small fire of peat, which the father had just brought home from the adjoining moor; this the wife was economically placing upon the stones, to produce a commodious heat, while the ragged off-spring were lisping, in language hoarse, their dad's return. A large stone jug of liquor, called *diodgriafel** which the good woman had been sedulously preparing against the husbands arrival, stood near, and was now, with the supper of potatoes, about to be quaffed; the success of the past day's exertion, and the hopes of still better to-morrow, where [sic] the subjects of conversation; and the day concluded with the setting sun.*

* This is made of .the berries of the *Sorbus aucuparia*, (Roan [sic.]Tree) abundant in most parts of Wales; by pouring water over them, and setting the infusion by to ferment. When kept for some time, this is by no means an unpleasant liquor; but necessity obliges these children of penury to use it, without waiting for the fermentative process. In Scotland a spirituous liquor is obtained by distillation; and Gmelin informs us, the same use is made of them by the natives of Kamschatca, This tree is held in high veneration by the superstitious: a small part of it is carried about as a defence against enchantment; and a branch of the Roan is considered infallible in protecting cattle from the injury of witchcraft.

Llythyr a ysgrifennwyd gan Parch. J. Evans BA yn ystod Taith trwy Ogledd Cymru yn 1798

Sêr gwib Rhagfyr

If the sky is clear this evening look for 'shooting stars'. The Geminid meteor shower will be at it's 2012 peak this evening, Dec 13/14th. With low light pollution in the Glaslyn Valley there should be good sightings. Fingers crossed for a clear sky.

Vivienne Finn

Rhostryfan; 13 Rhagfyr 2012: Wedi darllen sylw Vivienne Finn yn y Tywyddiadur dyma lapio yn gynnes a mynd i eistedd allan tua 6 o'r gloch ac yn wir gwelsom sawl seren wib - rhyw 5 mewn tua chwarter awr. Roedd yr awyr yn glir.

Olwen Evans, Rhostryfan

Storm fawr 28 Chwefror 1937

Cerdd gan Ioan Brothen i'r storm honno

"Ar lechres hanes, enwir - ei heira
A'i mawrwynt trwy'r frodir;
Ar ei thaith dros fôr a thir,
Ei hafog nis anghofir."

Llinell neu Ddwy (cyfrol deyrnged Ioan Brothen 1942) trwy law Twm Elias

A dyma ddywedodd Philip Eden:

27-28 February Snowstorm; severe gale

A fierce blizzard raged over much of the country, and worst hit were the north Midlands, north Wales, all of northern England, and southern and eastern Scotland. Level snow was 60cm deep at Buxton, and 25-50cm over wide areas, but the northerly gale swept the snow into drifts 4 to 5m high. Roads and railways were blocked, not only by drifts but by trees and telegraph poles brought down in the strong winds. Power and telephone lines were damaged and the BBC was forced off the air in some regions. A gust of 107mph was recorded at Holyhead.

Eden, P. (2008) Great British Weather Disasters (Continuum Books)



Dyma ran o waith Rhys Gwynn o gasglu mân enwau llafar neu llai hysbys y fro sydd dan ei oruchwyliaeth fel warden y Parc Cenedlaethol Eryri.


Dyma grafu'r wyneb yn unig wrth i ni ystyried trysorfa enwau llafar holl fynydd-dir ac arfordir Cymru. Mae Rhys wedi gosod esiampl i ni. Mae digon o le i gasglu - cyn y bydd yn rhy hwyr...

- | | | |
|------------------------------------|---|--|
| 1. Bwlch Gesail | 24. Cwm Bydyre | 49. Y Grisiau |
| 2. Hafan y Griafolen | 25. Bwlch Carreg y Ro | 50. Yr Hafn Fawr |
| 3. Llain y Llwdwn Llwyd | 26. Tap Morus Moelgoch | 51. Tap Ucha Hafn Fawr |
| 4. Moelfryn | 27. Nant Sebon (?Selon) | 52. Tap Isa Hafn Fawr |
| 5. Pant Corsiog | 28. Neidiad y Llwynog | 53. Sawdl y Graig |
| 6. Llain Pen Isaf (Penisel) | 29. Ro Wen | 54. Ro Ddu |
| 7. Pant Lygog | 30. Llain Coed | 55. Llwybr Llywelyn |
| 8. Gloddfa | 31. Stabal Fach | 56. Craig Llywelyn |
| 9. Tap yr Agen | 32. Stabal Fawr | 57. Ffenest y Graig |
| 10. Tapiau'r Geifr | 33. Ceunant Dwyran (Dwyren) | 58. Dinas Llywelyn |
| 11. Tap Mawr Pant Cae | 34. Nant Dwyran (Diwern) | 59. Creigiau Sawdl Efa |
| 12. Bwlch Maen Hir | 35. Tap Mawr | 60. Bwlch Cosyn |
| 13. Craig Maen Hir | 36. Tap Mawr Pella | 62. Pant y Foty |
| 14. Nant Cwm yr Ychen | 37. Nyrs Plas y Bont | 63. Lleoliad twll Sawdl Efa (twll bach yn y ddaear y byddai Beti, Plas y Bont yn ei lanhau'n achlysurol) |
| 15. Cwm yr Ychen | 38. Tap Dwyran | 64. Twll Llestri Priddion |
| 16. Tap y Mochyn | 39. Tap y Graig | 65. Cut Dafydd Wmffra |
| 17. Mur y Nant | 40. Llwybr Cam | 66. Pant Isa |
| 19. Ro Fawr | 41. Gwely Prys Melyn | 67. Cwm y Graig |
| 18. Tap Rhygen Ddu (Rhegyn/Rhygyn) | 42. Nyrs Blaencywarch | 68. Nant Camddwr |
| 20. Daear Fach | 43. Tŵr John Bach (John Roberts, Cae'r Gof, Foel) | 69. Creigiau Camddwr |
| 21. Lloc Llwynog | 44. Nant Sych | 70. Tapiau'r Eglwys |
| 22. Tapiau Gwlybion | 45. Ceunant Brwt | |
| 23. Efail Bydyre | 46. Top y Graig | |
| | 47. Esgair Felen | |
| | 48. Esgair Felen Isaf | |

Diolch i Rhys Gwynn am gyflwyno ffrwyth ei waith i brosiect Llen Natur



Pont droed newydd dros aber yr afon Alaw, Mon. Ar ei ochr y mae cerfiadau o'r Mabinogi gan y gof a'r artist Ann Catrin.



Dronwy, Mon 25 Mehefin 1631: *Vespi I was at Glaslyn There was tyMBER newly come from Ireland. Raynie mor[ning]*
 Dyddiadur Robert Bulkeley, Dronwy, Môn
 Yn yr aber hwn yr oedd "Glaslyn" Robert Bulkeley (Gol.)

Clwydfa'r cei



Clwydfa creyrod bach ar y Cei Balast (Porthmadog), bore'r 12 Ionawr 2012.

Llun a hanes Elfyn Lewis oddiar Facebook Glaslyn Natur
 Mae'r Cei Balast yn fan addas iawn i aderyn "egsotig" fel hwn - mae'r Cei yn enwog am y chwyn o bedwar ban byd a ymsefydlwyd yno gyda'r balast a adawd yno gan y llongau llechi gynt. Ac alla'i ddim llai na dychmygu'r stwr ymysg adaryddion petasai llun Elfyn wedi ei dynnu hanner canrif yn ôl! (Gol.)

Mantell y Brodyr... mwy

Parthed y cyfeiriad at Friar's Coat [Bwletin 59, tud. 3] y mae'n enw ar waith copr, ac o bosib yr un lle a "Tyllau Mwyn" SH844205 ar y map. Dyma gyfeiriad ato oddi ar y we.

A remote location marked on old OS maps as Tyllau mwn (mine shafts). Thought to be the site of an unsuccessful trial referred to under the name of Friar's Coat in 1770.

According to the Geological Survey, iron ore (bedded oolitic ironstone with magnetite) was raised here in about 1878, 1910 and 1920.

Steffan ab Owain

Mae cyfeiriad Elizabeth Baker ato yn 1770 yn mynd ar hanes yn ôl ymhellach felly? Tybed ai lliw y mwyn oedd tarddiad yr enw? Mae'n debyg mai Brodyr (y gwisgoedd...) Gwynion Abaty Cymmer oedd y sefydliad mynachaid agosaf (Gol.)

Cân Craig Cywarch

gan Dafydd Hwmpfrey, Tynyfedw, Cywarch

Fe drodd yn fy meddwl heb drwbwl rhyw dro
Wneud cân i Graig Cowarch sy'n harddwch i'r fro,
Mae ynddi hen ffau i lwynogod gael ffoi,
Ar ôl bod yn prowlio am ryw beth i'w gnoi;
Ym mlaen Cwm-yr-ychen neu Dap Rhygyn Du,
Mae carreg yn ateb yn hynod o hy';
Beth bynnag a dd'wedaf – run fath dywed hi.
Mae Llwybr Llywelyn gerllaw i'r Ro Ddu,
I lawr ac i fyny hyd hwnnw bum i,
Ac felly Llywelyn 'rhen amser a fu.

Os daw'r dinasyddion, rai dewrion am dro
Mor uchel i fyny a Bwlch-carreg-ro,
Hwy deimlant yr awel yn iachus a braf
Pan bydd hi'n haul melyn yng nghanol yr haf.
Mae yno le elwir yn Hen-Lain-y-coed -
Rwy'n cofio'r tro cyntaf bum ynddo erioed,
Ac eto nid ydyw ei enw yn void.
Mae yno le rhyfedd rhwng daear a nen –
Mae Stabal Fach hithau uwchben y Ro Wen
Lle bowliodd y llwynog â'i gwt dros ei ben.

Mae pen Tapiau'r Geifr yn ddifyr a da
I fyned i rodio ar hardd-ddydd yr ha'.
Cewch weled y barcut a'r gwalch yn eu rhyw,
Mae hithau'r hen gigfran o gwmpas yn byw.
Mae gwely Prys Melyn ar bared pur lwm
I'w weled bob amser o ganol y Cwm –
Ni 'rosaf un amser ddim llawer yn hwn.
Mi glywais 'rhen bobl yn dweud lawer tro
Os cysgwn yn hwnnw yr awn i o'm co'
Neu byddwn yn brydydd – y gorau'n y fro.

Mae hir Esgair Felen yn globen pur fawr,
Mae'n haws mynd i fyny na dod hyd iddi lawr.
Mae Rhes-cerrig-gwynion i'w canfod yn glir,
'Does un esgair glyfrach na'i harddach drwy'r sir.
I lawr hyd Nant Dwyrn i droed Llwybr Cam,
Mae'r Stabal Fawr hithau yn ymyl y fan
A rhai a fu ynddi ym mynwent y Llan.
Ar draws dôs i wedyn yn fawr iawn fy mhoen
Nes oeddwn yn agos i hen Lain-y-croen
Lle darfu am y ddafad, ond safiwyd yr oen.....

Os am weld y ddwy bennod sy'n weddill o'r gerdd, chwilwch yn Llên y Creigiau am [Dafydd Hwmpfrey](#) neu [Craig Cywarch](#).

Trwy law Rhys Gwynn

Carlwm gwyn diweddaraf

Tua amser cinio heddiw [9 Ionawr 2013] allan yn ardal Mynydd Illtyd, beth welais, y cynta ers blynyddoedd maith, ond carlwm yn ei holl ogoniant gaeafol, yn hollol wyn heblaw am ei gynffon, ond yn rhy bell i gael llun ohono. Roedd yn rhedeg rownd a rownd llwyn o eithin, ac y fi a'r defaid yn edrych arno. Wrth agosau dyma fe i fwrdd fel bollt am y clawdd a diflannu. Roeddwn yn meddwl fyddai cwningen yn y llwyn ond nid oedd son am ddim. Efallai siawns i chwarae ar ôl yr holl dywydd gwlyb yma!!! Mynydd Illtyd SN9525


Bryan Jones

Tynnwyd y llun hwn gennyf yn y 1980au, ond rhag fy nghywilydd nid oes cof na chofnod o fan ei farwolaeth. Oes rhywun un cofio ei roi i mi? (Gol.)




Y tywydd y tu allan i'r bocs

Mae'r tywydd yn gadael ei ôl mewn llawer o ffurfiau annisgwyl. Mae'n braf iawn derbyn eich cofnodion rhifol



arferol o'ch sgrin Stevenson cofiwch. Dyma gyfansymiau misol John Lloyd Jones a gasglodd yn ôl ei arfer yn ei ardd ym Mhelcomb, Hwlffordd.

Sylwch ar y glawiad cymharol isel yn nhri mis cynta'r flwyddyn (pan oedd gwaharddiad yn Lloegr, chwi gofiwch,



ar ddyfrio'r ardd â phibell!). Sylwch ar yr ambell fis gweddol "normal" wedyn (Mai Gorffennaf a Medi), ond a

oes angen son am weddill y flwyddyn a'r misoedd blin o genllif...? Ond beth am ffynonellau mwy annisgwyl?

Dyma ddata tywydd o fath gwahanol oddiwrth Gwyn Williams. Mae ei baneli solar ar do ei gartref yn Rhuthun yn cofnodi'r ynni y maent yn ei gynhyrchu o'r haul. Dyma felly graff Gwyn sydd i bob pwrpas yn fesur o gyfanswm heulwen misol y flwyddyn. Mae'n dangos mai mis Mai oedd y mis mwyaf heulog (cofio'r cyfnod bendigedig hwnnw am yr ychydig ddyddiau hyd y 24ain?).

A meddwl ymhellach eto "y tu allan i'r bocs", beth am ofyn i'ch dyn neu ddynes glanhau ffenestri i gadw cyfrif o'r cyfnodau y mae'r ffenestri yn eich bro yn arbennig o fudr neu frwnt? Gallai gwybodaeth o'r fath amlygu llwch llosgfynyddoedd neu stormydd tywod yn y Sahara.

Ewch i'r Oriol neu i Graffiau ar wefan Llên Natur i weld gwybodaeth arall ar ffurf graff o'r flwyddyn o dywydd rhyfeddol gawson ni'r llynedd.

Het y fôr-forwyn

Enw ar gragen fôr yw hwn, o Cymru Coch. Ond pa gragen? Steffan ab Owain